# A487 Gwelliannau Teithio Llesol Faenol

Crynodeb o adborth gan y cyhoedd a rhanddeiliaid

# Methodoleg

- Cyfnod Ymgynghori o Ddydd Iau 12 o Fedi – Dydd Iau 10 Hydref 2024

- Cyhoeddwyd deunydd Ymgynghori ar wefan Cyngor Gwynedd ac anfonwyd dros e-bost i rhanddeiliaid allweddol

- Derbyniwyd adborth drwy arolwg ar lein, e-bost a phost



# Ymatebion

**Arolwg ar lein**


- Derbyniwyd 180 o ymatebion


**E-bost**

- Derbyniwyd 15 o ymatebion yn cynnwys gan gynghorwyr lleol, CADW, Cyfoeth Naturiol Cymru a Sustrans

**Post**


- Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth



# Cwestiwn Un - Beth ydych chi'n ei hoffi am y cynllun?

- 163 o ymatebion ar lein
- Themâu allweddol i'w weld isod




**Esiamplau o resymau derbyniwyd:**

*"I like that you're going to provide a safe means of crossing the road at this junction. I have crossed the road in the past there as a cyclist going up Faenol Hill. Traffic is always heavy, and always moving quickly which makes finding a gap in the traffic hard. It always feels like you're taking your life in your hands to access the cycle path up Faynol hill"* (Gwryw, 45-54)


*"My children will definitely use this section considerably more if it was safer."* (Benyw, 45-54)

*I don't really like this scheme and I am a walker and occasional cyclist. I understand the traffic can move fast here but it needs to.* (Benyw, 35-44)

*Nothing it is a total waste of money and the disruption it will cause to drivers and emergency services , i have lived in y Felinheli all my life and hardly see anyone walking up faenol hill* (Benyw, 45-54)

# Cwestiwn dau – A oes gennych unrhyw bryderon am y cynllun?

- 166 o ymatebion ar lein
- Themâu allweddol i'w weld isod




**Esiamplau o resymau derbyniwyd:**

*That roundabout is like the Wild West people are going really fast on the Felinheli bypass (or whatever it's called) bit and they come thundering onto the roundabout you're going to have trouble with them not being able to stop in time at the crossing and when traffic is backed up on the roundabout - 50 mph change isn't going to be enough.* (Benyw, 45-54)

*"You're going to create further traffic coming from a55 exit and Ysbyty Gwynedd, you already get heavy traffic in peaks period. And there is hardly any pedestrians that walk this route anyways there is no need for traffic lights since it just creates more traffic. Money should be spent improving the road pot holes maybe by the Menai bridge instead of wasting money on very rarely used pedestrian crossings on busy junctions."* (Gwryw, 16-24)

# Ymateb y tîm project i adborth (Cwestiwn dau)

**C. A fydd gan gerbydau sydyn o ffordd osgoi Felinheli ddigon o amser i stopio os ydi pobl yn defnyddio'r croesfannau?**

Mae signalau traffig wedi'u cynllunio i redeg yn baralel gyda signalau'r A487 (ffordd osgoi Felinheli). Bydd cerbydau yn aros ar fynedfa'r A487 (ffordd osgoi Felinheli) tra bydd pobl yn defnyddio'r groesfan y lon sy'n dychwelyd i'r gogledd (Allt y Faenol).

Bydd y Cynllun yn cynnwys gostyngiad yn y cyfyngiad cyflymder i 50mya ar ffyrdd dynesu'r Cylchfan Faenol i wella diogelwch ffordd.

**C. Dylai gwario'r arian mewn man arall, megis tyllau yn y ffyrdd neu'r GIG**

Mae'r cynllun yn cael ei datblygu gan yr Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA) sydd yn gyfrifol am gefnffyrdd fel A497. Dyranni'r cyllid drwy Cronfa Teithio llesol Llywodraeth Cymru.

(https://www.llyw.cymru/teithio-llesol-canllawiau-2023-i-2024-html)

Bydd y cynllun yn lleihau risgiau diogelwch ar groesfannau cylchfan Faenol, cysylltu â rhwydwaith ehangach o lwybrau, a gwella diogelwch ffordd ar gyfer bob defnyddwyr priffyrdd yn cynnwys modurwyr.

# Ymateb y tîm project i adborth (Cwestiwn dau)


**C. Faint o bobl sydd yn cerdded neu feicio yn yr ardal?**


Mae’r ddarpariaeth cerdded a beicio presennol yn yr ardal yn rhan o’r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol Llwybr 8 (Lôn Las Cymru). Mae’n cysylltu Lôn Adda a Lôn Las Menai.

Rhwng Tachwedd 2021 a Hydref 2022, defnyddiodd cyfanswm o 7817 cerddwyr (cyfartaledd dyddiol o tua 21) a 10995 beicwyr (cyfartaledd dyddiol tua 30) Lôn Adda.

Drwy arolwg ar ddiwrnod gwaith yn Mai 2023 defnyddiodd 12 o gerddwyr a 35 o feicwyr croesfan cylchfan Faenol ar y lon i gyfeiriad y  gorllewin (i Felinheli), gyda 16 o gerddwyr a 51 beicwyr yn croesi’r lon i gyfeiriad y dwyrain (i Fangor).

Mae’r cynllun yn gyfle i wella’r cysylltiad i’r llwybrau ac yn rhoi’r hyder i fwy o bobl gerdded, olwyno a beicio yn y dyfodol.










Mott MacDonald Restricted

# Cwestiwn tri - A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut y gallem wella'r cynllun?

- 157 o ymatebion ar lein
- Themâu allweddol i'w weld isod




**Esiamplau o resymau derbyniwyd:**

*"Find an alternative route that would not disrupt an already gridlocked network. An underpass, if possible would be the only practical solution"* (Gwryw, 45-54)

*"A bridge over the road would be a much safer and more practical idea with no running costs of traffic lights"* (Gwryw, 35-44)

*Leave it as it is not needed and will make traffic up the hill worse."* (Benyw)

*"Not to waste money in the first place!"* (Benyw, 55-64)

# Ymateb y tîm project i adborth (Cwestiwn tri)

**C. Beth fydd effaith traffig y cynllun?**

Awgrymai gwaith modelu y byddai'r cynllun yn arwain i gynnydd cymharol i oediad cerbydau yn teithio drwy'r cylchfan. Mae gosod signalau ar ran o'r cylchfan yn angenrheidiol i ddarparu cyfleuster croesi i gerddwyr a beicwyr.

Byddai'r cynllun yn defnyddio technoleg sydd yn ymateb i lif traffig a rheoli oediadau yn well ar wahanol fynediadau i'r cylchfan. Nid yw hyn yn bosib yn bresennol a gallai bod yn fudd i yrwyr yn ystod adegau prysur. Er enghraifft, pan mae llif uchel o gerbydau yn teithio i'r gogledd tuag at yr A55. Bydd technoleg canfod yn lleihau oediadau unwaith bydd y croesfannau yn glir.

Drwy osod signalau ar ffyrdd ddynesu Allt Faenol a ffordd osgoi Felinheli, byddai'r cynllun yn gwneud hi'n haws i yrwyr i fynd ar y gylchfan wrth deithio o'r B4547 a A4087. Yn bresennol, mae pobl sydd yn disgwyl ar fynedfeydd y gylchfan yn gorfod cymryd symudiadau peryglus ambell waith. Byddai gosod signalau ar ddynesu ffordd osgoi Felinheli yn lleihau'r risg diogelwch o gerbydau sydyn yn goddiweddyd ei gilydd ar y cylchfan cyn teithio fyny Allt Faenol. Mae'r cynllun yn cynnwys cyfyng gyflymder llai o 50mya byddai'n tawelu'r traffig ac yn gwella diogelwch.

Bydd ffurfwedd y signalau yn cael ei phrofi ar safle i ddarparu gweithrediad optimaidd, a bydd gwaith monitro'r cylchfan yn digwydd os ydi'r cynllun yn mynd yn ei flaen.

# Ymateb y tîm project i adborth (Cwestiwn tri)

**C. Oes posib codi pont neu adeiladu tanffordd yn lle'r cynllun hwn?**

Yn flaenorol, fe ystyriwyd pont dros y cylchfan yn ystod Gam 2 y WelTAG. Er hynny, fe ddiddymwyd i ffafrio signalau oherwydd y rhesymau canlynol:

- Costau – Byddai pont yn costio mwy na £3.9miliwn, i gymharu â chynllun signalau sydd ac amcangyfrif o ddeutu £800,000
- Posib y byddai cerddwyr a beicwyr yn parhau i groesi dros y gyffordd wastad hyd yn oed efo bont, a fyddai'n lleihau gwerth am arian
- Effaith gweledol ar y Stad Faenol a strwythurau rhestredig cyfagos
- Gollyngiadau carbon wrth adeiladu pont newydd
- Effaith ar draffig yn ystod adeiladu



Mott MacDonald Restricted

# Camau nesaf

Ymgorffori adborth i'r broses cynllunio,  lle y bo hynny'n ymarferol

Cyflwyno'r cynllun i grŵp adolygu ym mis Ionawr 2025.

Yn cynnwys NMWTRA, Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Sustrans

Grŵp Adolygu i benderfynu mynd ymlaen gyda'r cynllun ai peidio

Adeiladu Rhan 1 o'r cynllun yn 2025 yn amodol ar gymeradwyaeth a chyllid.

Monitro cyfredol o amseroedd signalau a'r cynllun yn gyffredinol

Does dim modd dangos y llun.

# Diolch